## Cymorth gydag AA2 i ganolfannau: rhai awgrymiadau ar gyfer addysgu

**DS *natur y wybodaeth hon yw datblygu AA2. NID yw'r hyn sy'n dilyn yn rhoi atebion diffiniol – awgrymir ymresymiadau er mwyn dangos sgiliau AA2, ond mae CBAC yn argymell yn gryf y dylid eu datblygu ymhellach ac y dylai athrawon ac ymgeiswyr ddefnyddio eu syniadau a'u gwerthusiadau eu hunain mewn ymateb i'r deunyddiau sydd eisoes wedi'u darparu.***

Ar gyfer sgiliau AA2, mae'n bwysig cofio mai'r hyn a asesir yw sgiliau gwerthuso ac nid gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys yn unig. Rhestrir y chwe bwled ar gyfer pob Thema o dan gynnwys AA1. NID cwestiynau mohonynt ond, yn hytrach, arwyddion o'r meysydd trafod a all godi mewn datganiad cwestiwn AA2 nodweddiadol. At hynny, wrth i ddeunydd AA1 gael ei astudio holl bwrpas AA2 yw mynd ati i ddeall deunydd AA1 mewn ffordd feirniadol a gwerthusol sydd, yn sicr, yn ddisgyblaeth drylwyr ac academaidd.

Un o’r nodweddion mwyaf cyffredin a welir mewn adroddiad gan Brif Arholwr yw'r sylw rheolaidd bod ymgeiswyr ond **yn cyflwyno rhestrau o safbwyntiau** o blaid dadl a/neu sy'n ei herio, a hynny'n aml mewn ymateb i gwestiwn lle y disgwylir gwerthusiad. Felly, er enghraifft, gall cynllun marcio nodweddiadol restru pwyntiau bwled i'w hystyried ond nid yw eu hailadrodd yn dangos AA2. Mae'r ffordd y mae pwyntiau’n cael eu **DEFNYDDIO** a'u **DATBLYGU** gan athrawon ac ymgeiswyr i lunio dadansoddiad beirniadol a gwerthusiad yn hollbwysig ac mae'n troi unrhyw ddeunydd awgrymedig yn ddadl academaidd sy'n adlewyrchu disgrifyddion Band AA2.

Nid oes dim o'i le ar baratoi'ch ystyriaethau a'ch myfyrdodau ar bwnc mewn ymateb i'r adran ar 'Materion i'w gwerthuso a'u dadansoddi' yn y Fanyleb; **fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod rhyw fath o ddadansoddi neu sylwadau personol drwy'r ateb cyfan** a all gael **eu defnyddio wedyn i ddod i gasgliad rhesymol**.

Mae sgiliau gwerthuso a dadansoddi yn cyflwyno eu hunain fel deialog barhaus rhwng llais y dystiolaeth neu'r safbwyntiau rydych yn eu dewis, a'ch llais eich hun, gyda chi, yn y diwedd, yn cael y gair olaf gan nodi'ch safbwynt yn glir [casgliad(au)].

## Uned 3 : Islam
## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Islam Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried natur ddiwinyddol shari'a

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Nod Mwslimiaid yw gweithredu dros Allah, ac maen nhw'n credu eu bod yn dilyn ei ewyllys Ef pan fyddan nhw'n dilyn ei orchmynion Ef yn y shari'a. System o gyfreithiau ac arweiniad ydyw y mae llawer o Fwslimiaid yn ei hedmygu am ei bod uwchlaw llygredd dynol fel cyfraith ddwyfol a wnaed yn y nefoedd.
2. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu bod shari'a fel rydyn ni'n ei adnabod yn gwbl ddwyfol. Mewn gwirionedd, mae sawl ysgol o gyfreithiau a sawl dadansoddiad gwahanol o shari'a, yn dangos bod dadansoddwyr dynol wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o ddatblygu cyfraith shari'a.
3. Mae'r shari'a yn seiliedig ar y Qur'an yn y bôn, a'r enghreifftiau o Muhammad, y negesydd olaf a pherffaith gan Dduw. Felly, gellid dweud bod dau brif darddiad shari'a yn deillio o natur ddwyfol.
4. Fodd bynnag, yr hadith yw prif ffynonellau'r enghreifftiau o Muhammad, ac mae cwestiynau ynghylch eu dilysrwydd gan eu bod wedi'u pasio i lawr gan adroddwyr dynol ffaeledig.
5. Mae ysgolheigion yn defnyddio consensws (ijma) a chydweddiad (qiyas), i roi atebion i faterion sy'n aneglur yn y ffynonellau hysbys. Ar un llaw, maen nhw'n trafod ffynonellau sylfaenol wrth lunio barn. Ar y llaw arall, maen nhw'n rhoi barn ddynol amdanyn nhw.
6. Mae gan Fwslimiaid farn wahanol am y ffyrdd y gallan nhw gyrraedd dysgeidiaethau shari'a. Mae rhai o'r farn y dylai shari'a gymryd gorchmynion gan y Qur'an a sunna, er mwyn cadw'n agos at ei darddiad dwyfol. Mae eraill o'r farn bod yr egwyddorion cyffredinol yn oesol, ond y dylai'r bobl sy'n gwybod orau ar gyfer y cyfnod maen nhw'n byw ynddo ail-ddadansoddi manylion y broses o'u cymhwyso.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y Qur'an, a ystyrir yn air datguddiedig dwyfol Duw, a'r shari'a?
2. A yw'r ffaith bod sawl dehongliad gwahanol o shari'a yn effeithio ar ddehongliadau ynghylch ei natur ddwyfol?
3. I ba raddau y gall pobl wneud llywodraethau shari'a gyda hyder bod y llywodraethau hyn yn gyfiawn os yw shari'a yn ddwyfol?
4. A oes angen i shari'a fod yn ddigyfnewid am byth er mwyn bod yn ddwyfol o ran ei darddiad? Neu a ellir cymhwyso shari'a yn wahanol ar adegau gwahanol yn unol â chynllun Duw ar gyfer y byd?
5. Mae'n well gan rai Mwslimiaid ddilyn systemau seciwlar ar gyfer cymdeithas heddiw. A yw hyn yn golygu nad oes angen shari'a mwyach ac felly na all fod yn ddwyfol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r shari'a yn tarddu o Allah ac mae'n dragwyddol ac yn ddigyfnewid.
2. Yn y bôn, mae'r shari'a yn gasgliad o ddehongliadau bodau dynol wedi'u seilio i ryw raddau ar y Qur'an a sunna.
3. Gall system bur o shari'a fodoli gyda Duw ond dim ond yn rhannol y mae'n hysbys gan Fwslimiaid sy'n defnyddio gorchmynion dwyfol yn ogystal â dehongliadau bodau dynol.

## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Islam Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried i ba raddau y gall dehongliad bodau dynol amharu ar ddealltwriaeth o shari'a

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Y Qur'an yw datguddiad uniongyrchol Duw a ffynhonnell gyntaf shari'a. Mae'n bosibl na all unrhyw ddehongliad bod dynol fod cystal â'r Qur'an am ddeall cynllun dwyfol Duw a gallai gamarwain.
2. Fodd bynnag, ail ffynhonnell shari'ia yw'r sunna, sydd wedi'i gynnwys yng ngeiriau Proffwyd dynol cyflawn Allah, Muhammad. Gosododd esiampl berffaith gan ddangos gorchmynion Duw fel y gallai Mwslimiaid ddeall. Mae ei esiampl dynol yn helpu Mwslimiaid i ddilyn y shari'a.
3. Mae Qur'anwyr yn gwrthod dehongliadau bodau dynol ac yn dilyn y Qur'an yn unig fel ffynhonnell o awdurdod. Mae Qur'anwyr yn ystyried bod dehongliadau bodau dynol yn amharu ar ddealltwriaeth o gyfraith Duw.
4. Yn nyddiau cynnar Islam, gwnaeth Mwslimiaid Madinah helpu i osod y gorchmynion yn yr ysgolion shari'a. Cafodd eu harferion eu dilyn am eu bod yn adnabod ffyrdd y Proffwyd yn dda. Roedd arferion pobl Madinah yn ffurf ar ddealltwriaeth ddynol o gyfraith ddwyfol.
5. Fodd bynnag, datblygwyd sawl ysgol o feddwl gwahanol a gall hyn fod yn ddryslyd i rai Mwslimiaid ac effeithio ar eu dealltwriaeth o shari'a..
6. Heddiw, ni ellir dod o hyd i atebion clir i sawl mater ym mhrif ffynonellau shari'a, felly mae Mwslimiaid yn troi at ddehonglwyr dynol ac yn gofyn am gonsensws (ijma) a chydweddiad (qiyas) i'w helpu.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pam mae Mwslimiaid yn teimlo'r angen i wneud dehongliadau bodau dynol pan mae shari'a yn tarddu o Dduw?
2. Sut gall Mwslimiaid ddod o hyd i atebion i broblemau cyfoes sydd hefyd yn gydnaws â chyfraith ddwyfol shari'a?
3. A yw dehongliadau yn newid a lleihau ewyllys Duw neu'n cynyddu'r ddealltwriaeth ohoni? Sut mae Mwslimiaid yn gwybod y gwahaniaeth?
4. A all unrhyw un wneud dehongliadau neu ai dim ond Imam, Mujtahid neu ysgolhaig ddylai lunio barn?
5. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dehongliadau ac ailddehongliadau (ijthad) ar gyfer anghenion presennol? A oes un yn fwy dilys na'r llall?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae dehongliadau bodau dynol yn hanfodol i Fwslimiaid ddeall eu ffydd yn yr oes maen nhw'n byw ynddi ac felly yn helpu Mwslimiaid i gael syniad cliriach o gyfraith shari'a.
2. Mae dehongliadau bodau dynol yn cyflwyno newid ac arloesedd sy'n tynnu oddi wrth y gyfraith ac, ar eu gwaethaf, maen nhw'n ffurf ar shirk, sy'n cysylltu â rhywbeth heblaw Allah.
3. Lle mae'n glir, dylid defnyddio ffynonellau gwreiddiol heb ychwanegu unrhyw ddehongliadau bodau dynol, ond lle nad yw shari'a yn ateb problemau modern, gall dehongliadau bodau dynol helpu Mwslimiaid i ddeall eu ffydd.

## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Islam Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae disgrifiad o gyfraith shari'a yn gamarweiniol

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Cyfeirir at shari'a yn gyffredinol fel system o gyfreithiau ac mae wedi datblygu ffurfiau o lysoedd, barnwyr a llywodraethau dros y canrifoedd.
2. Fodd bynnag, efallai ei bod yn well cyfeirio at 'cyfraith' fel un system o fewn gwladwriaeth wladol. Mae shari'a Islamaidd yn cyflwyno llawer o lywodraethau gwahanol sy'n cael eu llunio gan ysgolheigion o wahanol ysgolion o feddwl; mae cryn dipyn o amrywiaeth.
3. Mae cyfreithiau troseddol wedi'u gweithredu gan rai llysoedd shari'a, ond yn fwyaf cyffredin mewn hanes, roedd llysoedd gwladol gwahanol yn delio ag achosion o gamarwain troseddol.
4. Yn wreiddiol, ystyr shari'a oedd 'y llwybr cul' ac roedd yn rhoi arweiniad ar faterion crefyddol nad oedd 'unrhyw orfodaeth' yn eu cylch. Mae hyn yn wahanol i system o gyfreithiau.
5. Mae shari'a yn seiliedig ar ddatguddiadau a digwyddiadau yn Arabia ar ddechrau'r seithfed ganrif. Gallai dilyn y cyfreithiau a'r gorchmynion o'r cyfnod hwn, i'r llythyren, fod yn ddelfryd i rai ac yn bryder i eraill.
6. Mae llawer yn ystyried mai'r opsiwn gorau yw defnyddio shari'a mewn modd detholus a'i ail-ddehongli ar gyfer heddiw, yn hytrach na dilyn cyfreithiau'n llythrennol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pa bynciau a meysydd mewn bywyd y mae shari'a yn eu cwmpasu?
2. Beth yw prif elfennau system o gyfreithiau, llunio cyfreithiau a'u gorfodi? I ba raddau y mae'r prif elfennau hyn ar waith gan Fwslimiaid sy'n arfer shari'a?
3. A oes ots bod cynifer o ddadansoddiadau unigol gwahanol o shari'a? A yw'n gydnaws â system gyfreithiol?
4. I ba raddau y gellir deddfu ar gyfer credoau a moesau fel cyfreithiau ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol ac ar gyfer unigolion? Beth am gymdeithasau lluosog lle mae crefyddau gwahanol yn byw ochr yn ochr?
5. Mae llawer o lywodraethau newydd yn cael eu llunio ar gyfer sefyllfaoedd newydd. A yw'n gamarweiniol cyfeirio at y rhain fel cyfreithiau pan na chânt eu cwmpasu yn uniongyrchol gan y Qur'an?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae shari'a yn ymwneud yn bennaf â thraddodiadau crefyddol a bywyd teuluol, felly mae'r gair 'cyfraith' yn gamarweiniol.
2. Gall shari'a fod ynghylch pob agwedd ar fywyd yn unol â gorchymyn Duw felly mae llunio system gyflawn o gyfreithiau yn gasgliad rhesymol.
3. Gellid ystyried shari'a yn gyfraith teulu, yn ymwneud â materion fel priodas ac ysgariad, ond nid yn gyfraith trosedd, lle mae awdurdodau gwladol ar wahân wedi ymdrin â hyn fel arfer drwy hanes Mwslimiaid.

## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig

Mae Islam Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pedwerydd bwynt bwled yw ystyried p'un a yw'r drysau i ijtihad ar gau.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Barn bersonol yw ijtihad. Mae Mwslimiaid yn credu mewn ymostwng i ewyllys Duw, felly gellid dadlau nad oes lle i farn bersonol er mwyn dewis beth i'w wneud. Dylai Mwslimiaid fod yn ufudd i'r Qur'an.
2. Roedd y cymunedau Mwslimaidd cynnar yn adnabod y Proffwyd ac yn clywed ei eiriau. Gallai'r bobl a oedd yn ei adnabod yn dda lunio barn ar faterion, ond heddiw, rydyn ni wedi colli ei ddealltwriaeth ac mae perygl y gallai barn gael ei llunio na fyddai'r Proffwyd wedi cytuno â hi. Felly ni ddylai Mwslimiaid lunio ijtihad mwyach.
3. Roedd ysgolheigion Mwslimaidd gwych o'r gorffennol, yn enwedig Al-Ghazali, yn addysgu bod dyddiau Ijtihad drosodd: mae'r 'gatiau' ar gau. Yn dilyn hynny, roedd Mwslimiaid Sunni yn gofyn i Mutjahid beidio â gwneud ijtihad ond i arfer Taqlid, er mwyn copïo'r farn gynharach hon mor agos â phosibl heb hyblygrwydd ijtihad.
4. Fodd bynnag, mae angen i Fwslimiaid gael arweiniad ar sawl mater newydd. Heb lunio barn newydd, drwy arfer ijtihad, gallai Mwslimiaid ganfod eu bod ar goll a'i bod yn ddryslyd dilyn eu ffydd.
5. Roedd ysgolheigion shia yn llunio barn er mwyn arwain eu dilynwyr ac mae rhywfaint o waith ymchwil yn awgrymu bod rhai ysgolheigion Mwslimaidd wedi llunio barn drwy hanes, felly pam na ddylai hynny barhau heddiw?
6. Mae Mwslimiaid diwygiol yn credu rhai materion fel ei bod yn annerbyniol trin menywod yn anghyfartal ac y dylid herio hynny. Mae ijtihad yn hanfodol er mwyn diwygio Islam ar gyfer y byd modern.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r rhesymau a allai fod gan Fwslim dros geisio llunio ijtihad?
2. A all unrhyw un lunio ijtihad neu a ddylid cyfyngu'r arfer hwn i rai pobl? Os felly, i bwy ac ar ba sail?
3. A oes cyfyngiadau i ijtihad o ran beth y gellid penderfynu arno?
4. I ba raddau y mae dysgeidiaethau Islam yn absoliwt ac yn ddigyfnewid ac i ba raddau y maen nhw’n perthyn i gyfnodau ac amgylchiadau gwahanol?
5. Sut gellir amddiffyn ijtihad rhag datblygiad arloesedd (bid'ah), sy’n cael ei ystyried yn annerbyniol mewn Islam?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Ni ddylid arfer ijtihad mwyach gan na allwn wybod cymaint ynghylch yr hyn roedd y Proffwyd yn ei addysgu heddiw, felly dylem ddibynnu ar farn y rhai a oedd yn ei adnabod heb ychwanegu dim arall.
2. Mae ijtihad yn bwysig heddiw er mwyn gwneud synnwyr o faterion a sefyllfaoedd newydd na chânt eu cwmpasu gan farn y cymunedau Mwslimaidd cynnar.
3. Gellid arfer ijtihad mewn amgylchiadau cyfyngedig: ond dim ond gan y rhai sy'n gymwys ac er mwyn datrys materion anhysbys.

## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Islam Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae jihad fel term yn cael ei gamddeall

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Yn aml, mae'r cyfryngau yn dangos jihad fel terfysgaeth dreisgar, lle mae pobl ddiniwed yn cael eu llofruddio neu eu niweidio, yn aml mewn meysydd rhyfel neu hyd yn oed mewn dinasoedd gorllewinol weithiau. Mae rhai sydd wedi cyflawni'r troseddau hyn wedi honni eu bod wedi gwneud hynny fel jihad ar gyfer Islam.
2. Mae llawer o arweinwyr Mwslimaidd wedi condemnio'r gweithredoedd hyn ac mae Mwslimiaid wedi protestio 'nid yn fy enw i': sy'n golygu bod eithafwyr wedi deall jihad yn anghywir ac y dylid condemnio'r hyn maen nhw'n ei wneud.
3. Weithiau, mae Mwslimiaid Islamaidd yn galw am jihad er mwyn sefydlu llywodraeth Fwslimaidd, naill ai yn heddychlon neu gyda grym. Mae eraill yn ystyried bod hyn yn camddehongli'r term gwreiddiol jihad a'r broses o greu system Islamaidd newydd, na chaiff ei chefnogi gan arfer y Proffwyd.
4. Mae enghreifftiau o Fwslimiaid sy'n dilyn jihad personol er mwyn arfer eu ffydd. Gall hyn gynnwys ymlafnio i weddïo bum gwaith y dydd ac ymprydio heb fwyd yn ystod Ramadan er ei bod yn anodd iddyn nhw wneud hynny. Maen nhw'n honni mai dyna yw ystyr mwyaf neu bwysicaf jihad.
5. Mae amodau ar gyfer jihad lleiaf: dylai fod yn wrthdaro amddiffynnol yn niffyg popeth arall, gan gymryd gofal i beidio â chynnwys menywod a phlant a sawl amod arall. Weithiau, mae gwrthdaro wedi digwydd pan nad yw'r amodau hyn wedi cael eu dilyn, gan gamddeall natur a therfynau jihad.
6. Mae rhai Mwslimiaid yn credu y dylid cael jihad rhywiau er mwyn brwydro dros hawliau cyfartal i fenywod a diwygio'r dulliau o arfer y grefydd, ond mae traddodiadwyr yn gwrthod hyn am ei fod yn camddehongli gwir ddysgeidiaeth y ffydd.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng jihad mwyaf a lleiaf? A ellir isrannu'r rhain ymhellach yn fathau gwahanol ynghyd ag enghreifftiau?
2. I ba raddau y mae'r cyfryngau yn gyfrifol am ddangos safbwynt rhagfarnllyd o jihad, gan greu camddealltwriaeth?
3. I ba raddau y mae Mwslimiaid yn siarad yn rhesymegol ynghylch eu safbwyntiau ar jihad?
4. A gaiff yr amodau a'r cymwysiadau ar gyfer jihad eu deall yn ogystal â'r cysyniad cyffredinol?
5. A ellir cyfiawnhau trais unrhyw adeg? A all Mwslimiaid fod yn heddychwyr?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r term jihad wedi'i gamddeall yn llwyr ac erbyn hyn, mae'n cael ei gysylltu mewn ffordd negyddol ag eithafiaeth a therfysgaeth.
2. Mae llawer o Fwslimiaid yn arfer y jihad mwyaf i ddilyn Islam er gwaethaf anhawster, sy'n frwydr fewnol sy'n para drwy gydol eu hoes.
3. Mae jihad yn golygu pethau gwahanol i Fwslimiaid gwahanol nad ydyn nhw'n cytuno o anghenraid. Mae camddealltwriaeth un person yn cael ei ystyried yn farn wirioneddol gan rywun arall.

## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Islam Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried perthnasedd dysgeidiaeth am y jihad lleiaf heddiw.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Ar adeg y Proffwyd, roedd jihad lleiaf yn digwydd ar ffurf brwydrau amddiffynnol rhwng grwpiau llwythol eraill, er mwyn sicrhau bod y gymuned Fwslimaidd gynnar yn goroesi. Heddiw, mae Islam yn ffydd sefydledig felly gellid dadlau nad yw jihad lleiaf yn berthnasol mwyach.
2. Fodd bynnag, fel brwydr dros yr hyn sy'n gyfiawn yn foesol, neu er mwyn amddiffyn cymuned rhag gorthrwm, gellid cymhwyso jihad lleiaf unrhyw bryd drwy hanes yn cynnwys heddiw.
3. Mae Mwslimiaid mewn rhai gwledydd yn teimlo rhwystredigaeth yn erbyn llywodraethwyr llwgr neu bolisïau y maen nhw’n teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i'w dilyn ond nad ydyn nhw’n eu derbyn. Maen nhw o'r farn bod dysgeidiaethau ynghylch jihad lleiaf, i frwydro dros yr hyn sy'n gyfiawn, yn berthnasol ac yn eu hysbrydoli i frwydro dros yr hyn sy'n gyfiawn.
4. Mae'r dysgeidiaethau ynghylch jihad lleiaf yn cynnwys llywodraethau ynghylch sut y dylai fod yn amddiffynnol heb niweidio menywod a phlant ac mai dim ond yn niffyg popeth arall y dylid ei gymhwyso. Yn y byd heddiw, nid yw rhai Mwslimiaid yn dilyn y dysgeidiaethau hyn felly gallai'r dysgeidiaethau eu hunain helpu i atal rhai rhag eithafiaeth a therfysgaeth ac egluro nad yw Islam yn cymeradwyo gweithredoedd o'r fath.
5. Mae rhai yn y cyfryngau a'r byd gwleidyddol, boed yn Fwslimaidd neu ddim yn Fwslimaidd, yn ystyried Islam a'r Gorllewin fel gwareiddiadau sy'n gwrthdaro, a bod jihad yn rhan o hyn. Gall y dysgeidiaethau ynghylch jihad lleiaf helpu i gael gwared ar wrthdaro o'r fath.
6. Efallai nad yw dysgeidiaethau ynghylch jihad lleiaf yn cwmpasu dehongliadau modern, fel rhai'r Mudiad Diwygio Mwslimaidd sy'n galw am jihad i ddiwygio Islam. Maen nhw’n dadlau bod angen diweddaru'r dysgeidiaethau ar gyfer y byd heddiw.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Ar ba ffurf y mae jihad lleiaf?
2. Beth yw’r amodau ar gyfer jihad lleiaf?
3. Pa ganfyddiadau sydd gan bobl wahanol am ystyr jihad mewn cyfnod modern?
4. I ba raddau y gall dysgeidiaethau Islamaidd gael eu trosglwyddo o un cyfnod i un arall? Beth yw’r problemau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny?
5. Pam mae rhai Mwslimiaid heddiw yn galw am ffocws newydd a gwahanol ar jihad fel diwygiad a pham mae Mwslimiaid eraill yn gwrthod hyn?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Nid yw jihad lleiaf yn berthnasol heddiw: mae'r amodau ar ei gyfer yn gyfyngedig i gymdeithas lwythol yn y seithfed ganrif yn Arabia.
2. Mae jihad lleiaf o ran brwydro dros yr hyn sy'n gyfiawn yr un mor berthnasol ag erioed, gan fod llawer o anghyfiawnder yn y byd y mae angen ei herio.
3. Gall jihad lleiaf fod yn berthnasol ond gydag amodau ac amgylchiadau gwahanol heddiw gan fod yr oes wedi newid cymaint.

## Thema 2 : Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried sut mae Islam yn cydweddu â democratiaeth.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Ymgynghorodd y Proffwyd â phobl Madinah pan sefydlodd y gymuned Fwslimaidd gynnar, gan osod cynsail sy'n cefnogi'r ddadl bod Islam yn cydweddu â democratiaeth.
2. Penodwyd Califfiaid cynnar drwy gydsyniad y bobl a byddent yn cynnal ymgynghoriadau o'r enw shura. Byddai rhai'n dadlau bod hyn wedi arwain yn naturiol at ddemocratiaeth. Felly, gellid dweud bod Islam yn cydweddu.
3. Mewn democratiaeth, mae pobl yn pleidleisio dros bleidiau ac maen nhw'n llunio deddfau newydd. Gall pobl bleidleisio dros bolisïau sydd yn erbyn dysgeidiaethau poblogaidd y Qur'an. Felly, mae rhai Mwslimiaid o'r farn bod cyfyngiadau i ddemocratiaeth ac mae rhai hyd yn oed yn ei wrthwynebu'n llwyr.
4. Mae rhai Mwslimiaid yn ystyried bod arfer eu ffydd yn fater personol a theuluol. Mae'r llywodraeth ar wahân i hyn felly mae'n eithaf posibl byw mewn cyd-destun seciwlar ac aml-ffydd. Felly, maen nhw o'r farn bod Islam yn cydweddu â democratiaeth.
5. Mae eraill yn cysylltu democratiaeth â llywodraeth wladychol a llygredd. Eu nod yw llunio system islamaidd yn seiliedig ar shari'a a dysgeidiaethau datguddiedig. Mae rhai gwledydd Mwslimaidd ond yn gadael i ymgeiswyr sefyll etholiad os ydyn nhw'n Fwslimiaid ceidwadol, sy'n cyfyngu ar ddewis pobl.
6. Yn y DU, mae llawer o Fwslimiaid yn cefnogi democratiaeth ac mae Mwslimiaid proffil uchel sydd mewn swyddi o bŵer ac sydd wedi cael eu hethol yn ddemocrataidd, fel Maer Llundain, Sadiq Khan. Maen nhw'n annog Mwslimiaid i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pa fath o lywodraeth y mae Mwslimiaid gwahanol yn eu defnyddio ledled y byd? I ba raddau y maen nhw'n ddemocrataidd?
2. A yw shura, ymgynghoriad, yr un fath â democratiaeth?
3. I ba raddau mae Mwslimiaid yn rhydd i ddewis a llunio cyfreithiau ar sail eu dewisiadau eu hunain?
4. Beth yw effeithiau barn Fwslimaidd o ran democratiaeth mewn perthynas ag integreiddio? Ystyriwch mai democratiaeth yw un o brif werthoedd Prydain.
5. A oes unrhyw agweddau ar ddysgeidiaethau Islamaidd a Mwslimaidd traddodiadol a allai achosi problemau mewn systemau democrataidd modern yn seiliedig ar hawliau dynol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae democratiaeth yn fath o lywodraeth sy'n dilyn yn rhesymegol o ymgynghoriadau'r Proffwyd a Califfiaid, felly mae'n cydweddu ag Islam.
2. Gallai democratiaeth alluogi pobl i bleidleisio i gael gwared ar ddysgeidiaethau o'r Qur'an felly ni all fynd law yn llaw â gwirioneddau datguddiedig.
3. Mae arweinwyr sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd yn iawn ar gyfer materion llywodraethu ar yr amod bod Mwslimiaid yn rhydd i arfer eu ffydd eu hunain a materion teuluol yn unol ag Islam.

## Thema 2 : Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae shari'a yn ganllaw digonol ar gyfer pob agwedd ar gymdeithas.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Islam yn ffordd gyflawn o fyw ac mae ei ddysgeidiaethau yn cynnwys moesoldeb, bywyd teuluol, gofynion crefyddol, ac ati. Hyd yn oed os yw Islam yn cynnwys ildio i Allah a bod cynllun Allah yn ymdrin â phopeth, yna mae hynny'n golygu y dylid defnyddio shari'a fel canllaw ar gyfer pob agwedd ar gymdeithas.
2. Fodd bynnag, mae cymdeithas yn cynnwys sawl agwedd gan gynnwys cysylltiadau teuluol yn ogystal â materion troseddol. Yn ymarferol, roedd y rhan fwyaf o lywodraethwyr Mwslimaidd yn trefnu cyfraith droseddol drwy systemau gwladol, wedi'u seilio i raddau ar ddysgeidiaethau Islamaidd ond heb ddilyn cyfraith shari'a yn uniongyrchol.
3. Mae rhai pobl heddiw yn lleisio pryderon bod shari'a yn cynnwys llywodraethau fel torri dwylo ymaith am ladrata sy'n amlwg yn amhriodol yn y byd modern. Awgrymir mai'r ffordd orau o ddefnyddio shari'a yw wrth ddelio â materion cyfreithiol personol a materion teuluol, fel priodas ac ysgariad.
4. Mae rhai Mwslimiaid yn credu na ddylid defnyddio shari'a ar gyfer y materion hyn chwaith, oherwydd gall olygu y byddai hawliau menywod yn cael eu gwrthod drwy ddefnyddio llysoedd shari'a ar wahân.
5. Mae Mwslimiaid yn y DU heddiw yn ceisio dilyn cyfreithiau shari'a ar gyfer sawl agwedd ar fywyd, fel gwisg ac wrth ddewis pa fwyd i'w fwyta, er mwyn sicrhau ei fod yn halal ac yn bodloni gofynion shari'a. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn dilyn shari'a ym mhob agwedd ar fywyd.
6. Mae rhai pobl yn pryderu ynghylch shari'a a'i safiad ar faterion fel cyfunrywioldeb. Yn draddodiadol, nid yw Mwslimiaid yn cymeradwyo hyn, felly nid ydyn nhw’n credu bod shari'a yn ganllaw digonol ar gyfer materion o'r fath.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pa agweddau ar fywyd mae shari'a yn ei gwmpasu? A yw'n ymdrin â phob maes yn gyfartal?
2. Sut gall shari'a gynnig arweiniad i gymdeithasau sy'n newid dros amser? Yn benodol, sut gall shari'a, sy'n seiliedig ar Arabia yn y seithfed ganrif, hefyd fod yn berthnasol i gymdeithas fodern? Pam mae rhai Mwslimiaid yn ystyried bod shari'a yn ateb delfrydol i'r problemau y maen nhw’n eu hwynebu ym mhob rhan o gymdeithas?
3. A yw shari'a yn gallu arwain cymdeithas yn gyffredinol pan mae gan bobl wahanol mewn cymdeithas fersiynau gwahanol o shari'a neu safbwyntiau gwahanol amdano?
4. Lle nad yw prif ffynonellau shari'a yn ateb cwestiynau modern, sut y dylai Mwslimiaid ddod o hyd i atebion? A yw'n dderbyniol datblygu atebion newydd drwy shari'a neu ddiwygio dysgeidiaethau Mwslimaidd er mwyn dod o hyd i atebion newydd?
5. Sut mae dysgeidiaethau shari'a yn helpu i arwain Mwslimiaid sy'n byw mewn amgylcheddau plwralaidd, aml-ffydd a seciwlar? Pa broblemau allai godi?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae shari'a yn seiliedig ar gyfraith Duw sy'n ymdrin â moesoldeb a dysgeidiaethau ym mhob maes felly mae'n ganllaw i Fwslimiaid ei ddefnyddio ym mhob agwedd ar gymdeithas.
2. Nid yw shari'a yn addas i'w ddefnyddio heddiw mewn cymdeithas gan fod gan unigolion safbwyntiau gwahanol ac nid yw rhai agweddau ar shari'a yn addas am fod cymdeithas wedi newid.
3. Gellid defnyddio shari'a ar gyfer materion personol a theuluol ond nid mewn meysydd eraill, ac yn enwedig lle mae cymdeithas yn cynnwys sawl crefydd wahanol, lle gallai un system seciwlar i bawb fod yn fwy defnyddiol.

## Thema 2 : Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried effeithiolrwydd ymatebion Islamaidd i heriau safbwyntiau gwyddonol ynghylch dechreuad y bydysawd.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Cred Mwslimiaid fod Allah wedi creu'r bydysawd a phopeth sydd ynddo, yn cynnwys yr holl anifeiliaid a phlanhigion, dros ddyddiau'r creu. Nid oes angen rhesymeg na thystiolaeth, mae'n wirionedd datguddiedig. Felly, mae Islam yn diystyru Gwyddoniaeth.
2. Fodd bynnag, mae llawer o Fwslimiaid wedi ceisio cysoni'r ddau beth. Mae rhai yn awgrymu bod damcaniaeth wyddonol y Glec Fawr yn cydweddu â phenodau yn y Qur'an, ac y gallai'r bydysawd fod wedi'i greu gan Dduw drwy glec fawr.
3. Felly, mae sawl damcaniaeth wyddonol wahanol a gall Mwslimiaid nodi mai dim ond damcaniaethau ydyn nhw. Ni all gwyddonwyr brofi nad Duw a greodd y byd, felly mae gwyddoniaeth ac Islam yn delio â materion na ellir eu profi y tu hwnt i amheuaeth.
4. Roedd rhai Mwslimiaid o'r farn bod tystiolaeth o'r creu wedi arwain at y casgliad rhesymegol mai Duw a greodd y bydysawd. Gellid ystyried bod eu defnydd o athroniaeth a rhesymu yn cefnogi dull gwyddonol.
5. Mae Mwslimiaid eraill yn beirniadu hyn ac yn enwedig y ddamcaniaeth wyddonol ynghylch esblygiad. Eu hymateb i dystiolaeth ynghylch esblygiad yw diystyru'r dull gwyddonol.
6. Fodd bynnag, mae rhai wedi ceisio cysoni safbwyntiau drwy ddweud mai Duw a greoedd ein hesblygiad. Gallai Duw fod wedi gweithio drwy'r broses hon er mwyn creu'r byd ffres a phrydferth fel y gwelwn ef heddiw.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r ffynonellau o dystiolaeth sy'n dderbyniol i Fwslimiaid ar gyfer y creu? Yn hynny o beth, sut gallai'r rhain fod yn wahanol i'r ffynonellau y mae gwyddonwyr yn eu defnyddio?
2. I ba raddau y gall Mwslimiaid ddefnyddio rhesymu ac athroniaeth i gefnogi eu dealltwriaeth o'r creu?
3. A ellir cysoni cred yn Nuw fel creawdwr â rhesymu rhesymegol gan wyddoniaeth?
4. A yw'n bosibl derbyn y ddamcaniaeth ynghylch esblygiad yn ogystal â chredu yn y stori Islamaidd am y Greadigaeth?
5. Beth yw goblygiadau'r credoau am y creu o ran y ffordd rydyn ni'n rheoli'r amgylchedd heddiw?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae ymatebion Mwslimaidd i wyddoniaeth yn ddiystyrol ac yn aneffeithiol am eu bod yn defnyddio datguddiad heb ysytried rhesymu rhesymegol, er gwaethaf y dystiolaeth wyddonol sy'n cefnogi'r Glec Fawr ac esblygiad.
2. Mae ymatebion llawer o Fwslimiaid yn effeithiol am eu bod yn ceisio cysoni damcaniaeth wyddonol ac esboniad crefyddol, gan gydnabod na ellir profi'r ddau yn llwyr.
3. Mae amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch hyn ac mae Mwslimiaid yn anghytuno â'i gilydd. Mae ymateb effeithiol un person yn gyfystyr â heresi i rywun arall.

## Thema 2 : Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pedwerydd bwynt bwled yw ystyried a yw Islam yn cydweddu â gwyddoniaeth

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae'r Qur'an yn cynnwys gwirionedd datguddiedig ar gyfer Mwslimiaid. Maen nhw'n derbyn hyn ni waeth beth sydd gan arbrofion gwyddonol i'w ddweud. Felly, nid yw Islam yn cydweddu â gwyddoniaeth.
2. Fodd bynnag, mae'r Qur'an, yn ei synnwyr dyfnaf, yn ddatguddiad o wirionedd, y gellir ei weld drwy Qur'an natur yn ogystal â chael ei ddatguddio ar ffurf llyfr. Gall arsylwi natur arwain at gasgliadau rhesymegol sy'n cefnogi'r un gwirionedd gwrthrychol yn y Qur'an datguddiedig. Felly, mae gwyddoniaeth ac Islam yn cydweddu.
3. Mae gwyddoniaeth yn cefnogi'r ddamcaniaeth o'r Glec Fawr ac esblygiad. Gellir esbonio'r rhain yn rhesymegol heb fod angen credu yn Nuw y creawdwr. Mae'r ymagwedd hon yn wahanol i Islam sy'n dechrau gyda Duw fel yr achos cyntaf a'r prif ysgogwr.
4. Gwnaeth gwyddonwyr Mwslimaidd canoloesol lawer i gadw gwybodaeth hynafol am Wyddoniaeth a dechrau dulliau ac arbrofion gwyddonol yn ôl rhai gwyddonwyr, yn cynnwys Jim al-Khalili. Ni chawson nhw unrhyw anhawster yn cysoni Islam a Gwyddoniaeth.
5. Fodd bynnag, ni welwyd datblygiadau mewn gwybodaeth ar ddiwedd y cyfnod canoloesol. Roedd hyn yn rhannol am nad oedd Mwslimiaid yn cefnogi meddwl yn rhesymegol a bod cred grefyddol yn rhoi cyfyngiadau ar ymholiad gwyddonol.
6. Mae llawer o wyddonwyr Mwslimaidd heddiw ym mhob maes nad ydyn nhw'n cael unrhyw anhawster yn cynnal ffydd bersonol a gyrfaoedd gwyddonol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae Mwslimiaid yn derbyn ac yn defnyddio rhesymu rhesymegol yn eu dealltwriaeth o'r gwirionedd, ac i ba raddau maen nhw'n gwrthod hyn?
2. Sut gallai cred grefyddol gyfyngu ar yr hyn y mae gwyddonwyr yn ei wneud?
3. Beth yw natur gwirionedd? A oes y fath beth â gwirionedd gwrthrychol? Beth fyddai'r atebion Islamaidd a gwyddonol i'r cwestiwn hwn?
4. Sut mae credoau am greu ac esblygiad yn effeithio ar y drafodaeth ynghylch Islam a gwyddoniaeth? A ydyn nhw'n anghyson?
5. Beth yw goblygiadau'r ymholiad gwyddonol modern hwn, fel ymchwil geneteg ac embryo?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Nid yw Islam yn cydweddu â gwyddoniaeth. Rhaid i Fwslimiaid dderbyn gwirionedd datguddiedig yn y Qur'an na ellir ei gwestiynu gan wyddoniaeth, ac ufuddhau iddo.
2. Mae Islam yn cydweddu â gwyddoniaeth gan fod y ddau yn chwilio am wirionedd gwrthrychol. Gall ymholiad gwyddonol a datguddiad gefnogi gwybodaeth.
3. Mae Islam yn cydweddu â gwyddoniaeth ar yr amod nad yw credoau craidd yn cael eu cwestiynu. Yn y bôn, ni all cred yn Nuw fod yn agored i gael ei gwestiynu gan wyddoniaeth.

## Thema 2 : Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae'r cyfryngau'n dylanwadu ar ganfyddiadau Gorllewinol o Islam

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Rydyn ni'n byw mewn oes o gyfryngau torfol, papurau newydd, y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â ffilmiau a theledu, felly, yn anochel, mae'r cyfryngau yn fodd o gyfathrebu. Y cwestiwn yw a yw'r cyfryngau'n adlewyrchu'r gwirionedd neu'n dylanwadu ar bobl i feddwl am Islam mewn ffordd benodol.
2. Mae rhywfaint o waith ymchwil, fel y gwaith a wnaed gan Ziauddin Sardar, yn cyflwyno sawl achlysur lle mae'r cyfryngau yn portreadu Mwslimiaid gyda stereoteipiau annatblygedig ac yn cysylltu Islam â therfysgaeth ac eithafiaeth. Mae hyn yn dylanwadu'n negyddol ar bobl.
3. Mae eraill o'r farn bod y cyfryngau wedi bod yn rhy amharod i feirniadu agweddau ar Islam ac ymddygiad Mwslimiaid, wrth drin menywod er enghraifft, y mae angen ei herio.
4. Mae enghreifftiau o raglenni dogfen ynghylch hanes Islam a chyfraniad at gelf a gwyddoniaeth sy'n awgrymu bod rhai rhannau o'r cyfryngau yn ceisio rhoi safbwynt deg a chytbwys.
5. Mae erchyllterau terfysgol mawr yn cael eu hadrodd yn y cyfryngau am fod ganddynt ddyletswydd i adrodd arnyn nhw. Honnir bod rhai o'r drwgweithredwyr yn gwneud hynny dros Islam, felly efallai mai dim ond dweud y gwirionedd y mae'r cyfryngau.
6. Mae Cyngor Mwslimaidd Prydain (MCB) ac eraill yn cwyno nad yw'r cyfryngau bob amser yn rhoi digon o sylw i achosion pan maen nhw'n condemnio terfysgaeth neu i orymdeithiau Mwslimiaid heddychlon yn erbyn terfysgaeth, gan roi delwedd anghytbwys o safbwyntiau Mwslimiaid.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A ddylai'r cyfryngau adrodd ar bethau hyd yn oed os ydyn nhw'n pechu Mwslimiaid?
2. Neu a oes ganddynt ddyletswydd i adrodd ni waeth beth fo'r drosedd?
3. Beth yw canfyddiadau Gorllewinol o Islam?
4. Sut mae Mwslimiaid yn rhyngweithio â'r cyfryngau a chymdeithas brif ffrwd y maen nhw'n adrodd iddi?
5. Beth yw goblygiadau hyn i'r ffordd y mae Mwslimiaid yn rhyngweithio â'r cyfryngau a chymdeithas brif ffrwd?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Dim ond adlewyrchu'r gwirionedd am Islam y mae'r cyfryngau, yn cynnwys beirniadaeth lle y gellir cyfiawnhau hynny.
2. Mae'r cyfryngau yn unochrog ac yn rhoi delwedd negyddol o Islam a Mwslimiaid heb fod angen.
3. Lle mae anghydbwysedd, mae achosion hefyd lle mae'r cyfryngau wedi cyflwyno straeon newyddion da a beirniadaethau rhesymol.

## Thema 2 : Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried a yw'r modd y caiff Islam ei gynrychioli ym Mhrydain heddiw yn gywir

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae gan sawl Mwslim yn y DU swyddi pwysig, yn cynnwys bod yn aelodau seneddol a swyddi arwain mewn sawl maes gwahanol, felly maen nhw'n cael eu cynrychioli'n dda.
2. Fodd bynnag, mae rhywfaint o waith ymchwil yn dangos nad yw'r cyfryngau wedi cynrychioli Islam yn deg nac yn gywir a bod rhagfarn tuag at Islamoffobia.
3. Mae sefydliadau Mwslimaidd fel yr MCB sy'n cynrychioli safbwyntiau Mwslimiaid i'r llywodraeth ac yn y cyfryngau.
4. Fodd bynnag, mae rhai Mwslimiaid yn beirniadu'r grwpiau hyn am nad ydyn nhw'n cynrychioli nac yn lleisio barn Mwslimiaid sydd am gymryd safbwynt llai ceidwadol a diwygio Islam ar gyfer yr oes heddiw.
5. Mae llawer o Fwslimiaid yn protestio yn erbyn terfysgaeth ond yn cwyno nad yw eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n dda yn y cyfryngau. Mae'n ymddangos eu bod yn rhoi mwy o sylw i ddangos gweithredoedd nifer bach o Fwslimiaid sy'n gweithredu'n eithafol.
6. Er hyn, mae rhaglenni ffeithiol a rhaglenni dogfen ac ysgrifennu academaidd yn cynnwys cyfoeth o ymchwil wrthrychol i bortreadu Islam yn seiliedig ar wybodaeth gywir ar gyfer pobl sydd am ei gweld neu ei darllen.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Ym mha ffyrdd y mae Mwslimiaid ac Islam yn cael eu cynrychioli?
2. A all cynrychiolaeth gywir fod yn feirniadol hefyd?
3. A yw'r unigolion a'r grwpiau sy'n cynrychioli Mwslimiaid yn wirioneddol gynrychioliadol?
4. Sut gellir cynrychioli safbwyntiau a diddordebau amrywiol sy'n gwrthdaro weithiau?
5. Sut mae'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol yn newid canfyddiadau?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Islam yn cael ei gynrychioli'n dda ym Mhrydain heddiw drwy ASau, sefydliadau a phobl mewn sawl rôl wahanol.
2. Nid yw Islam yn cael ei gynrychioli'n dda ac nid yw'r sefydliadau sydd â llais yn ddemocrataidd.
3. Mae rhai meysydd lle mae Islam yn cael ei gynrychioli'n dda a meysydd eraill lle nad yw'n cael ei gynrychioli'n dda.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried effeithiolrwydd ymatebion Iddewon i blwraliaeth

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Sefydlodd y Proffwyd Muhammad Gyfansoddiad Madinah a'i lywodraeth lle'r oedd pobl o sawl ffydd a llwyth gwahanol yn cydweithio er mwyn amddiffyn ei gilydd. Mae rhai yn ystyried hyn yn blwraliaeth effeithiol.
2. Mae achlysuron eraill lle gwrthododd Muhammad blwraliaeth, mae'n debyg oherwydd amgylchiadau llwytholdeb ac erledigaeth ar y pryd.
3. Ar adegau yn hanes Mwslimiaid, yn enwedig yn ystod llywodraeth Fwslimaidd yn Sbaen, roedd Mwslimiaid yn trin eraill yn dda gan eu galluogi nhw, Cristnogion ac Iddewon i ffynnu.
4. Yn fwy diweddar, mae rhai Mwslimiaid wedi annog y broses o greu llywodraethau Islamaidd yn benodol er mwyn i Fwslimiaid fyw bywydau lle mae pob agwedd yn cael ei llywodraethu gan eu ffydd.
5. Yn y DU, mae rhai Mwslimiaid wedi integreiddio'n dda ac yn gweithio'n effeithiol mewn cyd-destun lluosol ym mhob agwedd ar fywyd, fel mewn gwleidyddiaeth, yn y cyfryngau, mewn chwaraeon neu wrth ymuno ag eraill mewn gweithredu cymdeithasol ar y cyd.
6. Mae rhai Mwslimiaid yn ofni y byddan nhw’n colli eu hunaniaeth wrth fyw mewn amgylchedd lluosol, neu'n gweld ei bod yn anoddach cynnal defodau gweddïo, ymprydio pan fydd eraill yn bwyta o'u cwmpas, neu gymryd amser i ffwrdd er mwyn dathlu gwyliau Id.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw prif ddirnadaeth y term plwraliaeth?
2. A oes ots pa gredoau sydd gan Fwslimiaid ynghylch pwy all fynd i'r nefoedd wrth fyw mewn cymdeithasau lluosol ochr yn ochr â phobl o sawl ffydd arall?
3. Sut gallai materion fel Islamoffobia effeithio ar ymatebion Mwslimiaid i blwraliaeth?
4. Pa ffyrdd y gellid eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd ymatebion?
5. Beth yw goblygiadau credoau ynghylch plwraliaeth ar gyfer cymunedau sy'n byw yn y DU heddiw?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae rhai Mwslimiaid yn effeithiol iawn am gydbwyso eu ffydd personol ag integreiddio i gymdeithas brif ffrwd, luosol.
2. Mae Mwslimiaid eraill wedi dewis ymneilltuo rhywfaint mewn ymateb i agweddau ar fyw mewn cymdeithasau lluosol sy'n anodd iddyn nhw.
3. Mae Mwslimiaid yn anghytuno ynghylch beth yw ymateb effeithiol: integreiddio, gradd o ymneilltuaeth, gweithredu cymdeithasol ar y cyd neu bregethu cenhadol.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried a oes ymagwedd gydlynol tuag at dröedigaeth mewn Islam

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Addysgodd Muhammad mai Islam oedd y gwirionedd a phregethodd wrth yr eilunaddolwyr ddod yn Fwslimiaid. Mae Mwslimiaid heddiw yn gwahodd eraill i dderbyn Islam fel y gwirionedd datguddiedig. Gan fod pob Mwslim yn dilyn Muhammad yn hyn, mae'r ymagwedd yn gydlynol.
2. Fodd bynnag, roedd Muhammad hefyd yn derbyn credinwyr eraill, fel Cristnogion ac Iddewon, a byddai ei ymdrechion weithiau'n cael eu cymhlethu â materion llwythol. Felly, nid yw bob amser yn glir beth yw ymagwedd gydlynol. Mae rhai Mwslimiaid yn priodi Cristnogion ac Iddewon ac nid yw'n ofynnol iddyn nhw gael tröedigaeth, gan ddilyn yr arfer ar adeg Muhammad.
3. Mae'r rhan fwyaf o Fwslimiaid yn y byd yn byw yn Ne a De-ddwyrain Asia lle cafodd Islam ei gyflwyno drwy Sufis teithiol a oedd yn adrodd straeon, yn actio dramâu, yn canu caneuon ac yn helpu pobl ag elusen i'w hysbrydoli i gael tröedigaeth i Islam.
4. Mae llawer o bobl yn y DU sy'n dod yn Fwslimiaid yn cael eu hysbrydoli gan y mudiad Salafi cynyddol sy'n gwrthod Sufiaeth ac sy'n hyrwyddo arfer syml, llythrennol sy'n seiliedig ar destun, sy'n rhoi ystyr a threfn i fywyd.
5. Yn y DU heddiw, mae pobl sy'n cael tröedigaeth yn nodi sawl rheswm gwahanol. Mae rhai yn dod yn Fwslimiaid ar gyfer priodas, eraill am resymau diwinyddol, neu er mwyn ymuno â grŵp Sufi i gael profiad ysbrydol.
6. Mae gan Fwslimiaid safbwyntiau gwahanol ynghylch i ba raddau y maen nhw’n rhydd i ddewis eu credoau. Mae rhai yn gwahardd gadael Islam (cael tröedigaeth i grefydd arall er enghraifft) ac mae eraill yn ystyried bod tröedigaeth dan orfodaeth yn bechod ac y dylid caniatáu i bobl ddychwelyd at eu ffydd wreiddiol os ydyn nhw’n dymuno.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Mae Mwslimiaid yn cyfeirio at dröedigaeth, dychwelyd a chroesawu Islam. I ba raddau y gallai'r termau hyn gyfeirio at ddulliau gwahanol o dröedigaeth?
2. Pa effaith y mae cred yng nghynllun Hollalluog Duw ar gyfer y byd a phob person ynddo yn ei chael ar ddealltwriaeth Fwslimaidd o dröedigaeth?
3. A oes gan Fwslimiaid ryddid i ddewis eu credoau eu hunain?
4. Pa effaith a gaiff yr amrywiaeth o grwpiau, arferion a dysgeidiaethau Islamaidd gwahanol ar brofiad pobl wahanol wrth gael tröedigaeth?
5. Heblaw am gred grefyddol, pa oblygiadau y gallai profiadau gwahanol o dröedigaeth eu cael ar y ffordd y mae Mwslimiaid yn rhyngweithio ag eraill mewn cymdeithas?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae tröedigaeth yn gydlynol a syml: mae Mwslimiaid newydd yn datgan y shahadah o flaen tystion.
2. Nid oes dim dwy sefyllfa yr un peth. Nid oes dull cydlynol. Mae rhai Mwslimiaid yn annog ceiswyr i brofi'r llwybr ysbrydol; mae eraill yn pregethu ac yn darbwyllo.
3. Mae a wnelo tröedigaeth ag ymrwymiad unigol yn dilyn cynllun Duw ar gyfer bywyd person, felly nid yw'n ddibynnol ar gydlyniant neu ddiffyg cydlyniant beth mae Mwslimiaid yn ei wneud o ran eu tröedigaeth wirioneddol.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae'r teulu Mwslimaidd yn ganolog i'r grefydd Islamaidd.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Y teulu Mwslimaidd yw'r uned sy'n dysgu Islam i blant ac yn trosglwyddo traddodiadau'r ffydd. Ystyrir bod hyn yn ganolog i ffydd ac arferion Islamaidd.
2. Fodd bynnag, yr Imam a'r mosg yw'r ffynonnellau arweiniad drwy'r bregeth yng ngweddïau dydd Gwener a thrwy ysgolion ategol Madrassah sy'n addysgu plant sut i weddïo a darllen y Qur'an.
3. Mae'n ddyletswydd grefyddol mewn Islam i ofalu am rieni ac mae llawer o deuluoedd Mwslimaidd yn creu unedau teuluol estynedig lle mae gan bawb rôl i'w chwarae yn gofalu am ei gilydd. Mae teuluoedd hefyd yn helpu i drefnu partneriaid ar gyfer priodas.
4. Fodd bynnag, mae rhai Mwslimiaid yn nodi bod ganddyn nhw hawl i wrthod partneriaid priodasol a bod rhaid iddyn nhw gytuno o'u gwirfodd yn unol â'u hawl mewn Islam, ni waeth beth fydd eu teuluoedd yn ei ddweud. Mae llawer o Fwslimiaid iau bellach yn dewis eu partner eu hunain yn hytrach na gofyn i'w teuluoedd.
5. I rai menywod Mwslimaidd, gall rolau teuluol traddodiadol gyfyngu ar eu gyrfaoedd. Mae rhai yn nodi bod Khadija, gwraig Muhammad, yn fenyw fusnes lwyddiannus ac mai hi oedd ei gyflogwr, felly dylai menywod gael rhyddid i ganolbwyntio ar eu gyrfaoedd fel hi.
6. Mae'r cysyniad o'r teulu ym Mhrydain fodern yn newid, gyda mwy o amrywiaeth o unedau teuluol: mae rhai yn rhieni sengl, mae rhai yn gyplau hoyw, mae llawer yn bartneriaethau hil gymysg neu grefydd gymysg. Mae rhai Mwslimiaid yn gwrthod rhai o'r datblygiadau hyn ac mae eraill yn dweud y dylai Mwslimiaid bellach groesawu mwy o amrywiaeth yn eu bywyd teuluol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r ffyrdd gwahanol o ddiffinio cyfansoddiad y teulu, yn enwedig yn y byd gorllewinol modern? Beth yw'r gwahaniaethau rhwng hyn a'r diffiniadau Mwslimaidd traddodiadol o deulu?
2. A ddylai plant ddilyn crefydd eu rhieni neu gael rhyddid i dyfu i fyny a dewis unrhyw grefydd neu ddim crefydd drostyn nhw eu hunain?
3. A oes unrhyw wahaniaethau posibl rhwng cefndir teuluol diwylliannol ac Islam?
4. Pam y gallai newidiadau mewn bywyd modern effeithio ar rôl draddodiadol y teulu Mwslimaidd.
5. Sut y dylai Mwslimiaid ymateb i deuluoedd hil gymysg, crefydd gymysg, yr un rhyw â'r llall a goblygiadau eraill o ran teuluoedd a dderbynnir gan gymdeithas yn gyffredinol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Yn draddodiadol, mae unedau teuluol Mwslimaidd yn ganolog i drosglwyddo ffydd a diwylliant i'r genhedlaeth nesaf a chefnogi'r hen a'r ifanc.
2. Fodd bynnag, mae rhai Mwslimiaid o'r farn bod bywyd teuluol yn cyfyngu ar yrfaoedd menywod neu ar y math o uned deuluol sy'n dderbyniol, felly mae rôl y teulu yn newid iddyn nhw.
3. Mae'r teulu yn bwysig, ond mae llawer o ffynonellau eraill megis Imams ac arweiniad gan ffrindiau a'r rhyngrwyd sy'n gynyddol bwysig i Fwslimiaid heddiw.

**Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol**

Mae Islam Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

**Nod y pedwerydd bwynt bwled yw ystyried a yw dynion a menywod yn gyfartal mewn Islam**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Eglurodd Muhammad yn ei bregeth olaf bod ei neges ar gyfer dynion sy'n credu a menywod sy'n credu: gwnaeth bwynt o bwysleisio bod gan y ddau ofynion crefyddol a hawliau menywod. Felly mae dynion a menywod yn gyfartal.
2. Fodd bynnag, drwy lawer o hanes Mwslimaidd, dynion oedd yr arweinwyr ac roedd gan fenywod rolau anghyfartal. Roedd llysoedd cyfraith shari'a yn rhoi llai o bwys ar fenywod nag ar ddynion. Roedd gan fenywod rôl yn gofalu am y plant gartref, a oedd yn wahanol i rôl dynion fel y penteulu, ac roedd yn rhaid i fenywod reoli eu gyrfaoedd eu hunain o amgylch eu dyletswyddau teuluol.
3. Mae traddodiadau sy'n nodi yn nyddiau cynnar Islam, bod gan fenywod rolau pwysig mewn addysg, meddygaeth ac roedd un fenyw yn Imam hyd yn oed, sy'n awgrymu bod menywod yn gyfartal â dynion.
4. Mae enghreifftiau o fenywod Mwslimaidd llwyddiannus sydd wedi bod yn Brif Weinidogion ac yn arweinwyr gwlad hyd yn oed, mewn rolau sy'n gyfartal ag arweinwyr sy'n ddynion.
5. Mae enghreifftiau hefyd heddiw o fenywod Mwslimaidd sy'n byw bywydau gartref yn bennaf ac nad ydyn nhw'n cael cynnig yr un lefel o addysg a datblygiadau gyrfaoedd â dynion. Maen nhw'n anghyfartal am fod eu rôl yn y cartref ac yn magu plant yn cael ei hystyried yn bwysicach na chyflawni rolau tebyg i ddynion.
6. Mae rhai menywod yn ystyried yr hijab fel symbol eu bod yn anghyfartal i ddynion gan eu bod yn cael eu hannog i orchuddio eu gwallt lle mae gan ddynion fwy o ryddid o ran beth y gallan nhw ei wisgo. Mae eraill yn ystyried yr hijab fel symbol o statws ac yn ei wisgo â balchder.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw ystyr bod yn gyfartal? A yw cydraddoldeb yn golygu bod yn rhaid i ddynion a menywod gael yr un rolau neu a allan nhw gael rolau gwahanol ond eu bod yn gyfartal o hyd?
2. Ym mha ffyrdd y gallai arfer diwylliannol a dysgeidiaeth Islamaidd am driniaeth menywod fod yn wahanol?
3. Pam y gallai rhai ffeminyddion Mwslimaidd gael cysyniad ychydig yn wahanol o gydraddoldeb?
4. Pam mae rhai pobl yn credu ei bod yn hanfodol diwygio Islam er mwyn cyflawni cydraddoldeb.
5. Beth yw goblygiadau'r mater hwn i fenywod Mwslimaidd sy'n ceisio integreiddio mewn cymdeithasau lluosol fel y DU heddiw?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae gan ddynion a menywod statws cyfartal mewn Islam ac mae ganddyn nhw yr un gofynion crefyddol, er bod eu rolau'n wahanol.
2. Mae dynion a menywod yn anghyfartal mewn Islam oherwydd eu rolau gwahanol ac oherwydd cymdeithas lle mae dynion wedi dominyddu drwy lawer o hanes Mwslimaidd.
3. Mae dynion a menywod yn gyfartal mewn rhai ffyrdd ond nid mewn ffyrdd eraill, yn ôl traddodiadau Islamaidd mewn ardaloedd gwahanol.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried y posibilrwydd y gallai Mwslimiaid ym Mhrydain gymathu i gymdeithas seciwlar

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae llawer o Fwslimiaid wedi llwyddo i gadw cydbwysedd rhwng eu ffydd a chymdeithas Brydeinig brif ffrwd ac wedi cael gyrfaoedd llwyddiannus mewn busnes, gwleidyddiaeth a phroffesiynau eraill.
2. Mae Mwslimiaid eraill yn ofni y byddan nhw’n colli eu hunaniaeth drwy gymathu. Maen nhw’n teimlo er mwyn cynnal purdeb eu traddodiadau, fel gweddïo bum gwaith y dydd ac ymprydio yn ystod Ramadan, bod angen iddyn nhw osgoi cymdeithasu mewn amgylcheddau lle gallai hyn fod yn anodd.
3. Mae rhai Mwslimiaid o'r farn bod gwisgo gwisg Islamaidd, fel yr hijab, ac arfer eu ffydd yn gyhoeddus, yn helpu'r broses gymathu am fod eraill yn cael gweld Mwslimiaid a deall mwy am eu crefydd.
4. Mae eraill yn ofni rhagfarn, Islamoffobia neu hyd yn oed ymosodiad am eu bod yn cael eu cam-drin am fod yn wahanol, drwy wisgo sgarff pen er enghraifft.
5. Mae rhai yn ystyried bod Cyfansoddiad Madinah, model gwreiddiol o gymdeithas ar gyfer Mwslimiaid, yn fodel da ar gyfer seciwlariaeth ac yn annog Mwslimiaid i fyw ochr yn ochr â phobl o gefndiroedd eraill.
6. Mae manteision i Fwslimiaid sy'n mynd i ysgolion a gweithleoedd seciwlar gan fod hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, mae'n well gan rai rhieni Mwslimaidd i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgolion crefyddol, lle gallan nhw gadw eu ffydd a'u gwerthoedd.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r gorgyffwrdd a beth yw'r gwahaniaethau rhwng cymathu ac integreiddio?
2. Pam mae rhai Mwslimiaid yn ofni cymathu ond bod eraill yn ei groesawu?
3. A oes unrhyw agweddau penodol ar gymdeithas seciwlar a allai beri trafferth i Fwslimiaid?
4. I ba raddau y mae Islam yn grefydd gymdeithasol?
5. Beth yw goblygiadau hyn o ystyried y drafodaeth am amlddiwylliannedd a rhyddfrydiaeth gyhyrog?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Gall Mwslimiaid gymathu i gymdeithas brif ffrwd a dylent wneud hynny gan fod hyn o fantais iddyn nhw ac o ran hyrwyddo eu ffydd.
2. Mae gradd o ymneilltuaeth yn well gan ei fod yn fesur i gadw purdeb traddodiadau Mwslimaidd.
3. Dylai Mwslimiaid ddewis pa feysydd o fywyd maen nhw’n teimlo'n gyfforddus yn eu cymathu i mewn i gymdeithas brif ffrwd a pha draddodiadau maen nhw o'r farn y mae angen iddyn nhw eu cadw ar wahân.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Islam Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried effeithiolrwydd Cyngor Mwslimaidd Prydain

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Nod yr MCB yw cynrychioli casgliad amrywiol o grwpiau Mwslimaidd ym Mhrydain nad ydyn nhw bob amser yn cytuno gyda'i gilydd. Dyma'r grŵp Mwslimaidd â'r sail ehangaf yn y DU ac mae wedi llwyddo i gael nifer fawr o aelodau, sy'n golygu ei fod yn grŵp Mwslimaidd effeithiol o ran nifer yr aelodau.
2. Mae'r MCB wedi arwain ymgyrchoedd fel Tell Mamma, yr ymgyrch i roi gwybod am Islamoffobia, ac wedi ymuno â grwpiau ffydd eraill mewn digwyddiadau cenedlaethol, gan roi llais a phresenoldeb i Fwslimiaid, sy'n effeithiol.
3. Fodd bynnag, mae'r MCB wedi cael ei feirniadu am fod yn rhy agos at rai grwpiau y mae eu safbwyntiau wedi cael eu cwestiynu. Cafwyd beirniadaeth i'r ffaith ei fod wedi boicotio digwyddiadau i goffáu'r Holocost ers sawl blwyddyn, sydd bellach wedi'i dynnu'n ôl, ac o ganlyniad, roedd yr MCB yn peri pryder i rai ac roeddent yn llai tebygol o wrando ar yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud.
4. Nod yr MCB yw gwella amodau i Fwslimiaid yn y DU, ond yn ystod Rhyfel Irac, gwnaeth wyro tuag at wleidyddiaeth ryngwladol gan feirniadu'r llywodraeth. O ganlyniad, cafodd ei anwybyddu gan wleidyddion mewn materion domestig gan olygu bod ei lais yn llai effeithiol.
5. Mae'r MCB wedi cael ei feirniadu gan rai grwpiau fel Quilliam am beidio ag ymuno â'r strategaeth i Atal Gwrth-eithafiaeth.
6. Fodd bynnag, mae'r MCB wedi egluro ei fod yn condemnio terfysgaeth, ac yn cynrychioli Mwslimiaid sy'n credu mewn heddwch ond na allan nhw gefnogi polisi'r llywodraeth.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Sut gellir mesur effeithiolrwydd yr MCB?
2. Sut gellir deall barn Fwslimaidd yn y DU pan mae cynifer o grwpiau gwahanol yn bodoli?
3. Sut gallai sefydliad sicrhau ei fod yn gynrychioliadol? A yw'r MCB yn gynrychioliadol?
4. A ddylai'r llywodraeth mewn gweledydd seciwlar wrando ar bryderon crefyddol?
5. Sut mae'r MCB wedi newid neu amrywio ei safbwyntiau ynghylch materion gwahanol dros amser? Pa un oedd fwyaf effeithiol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r MCB wedi bod yn effeithiol, yn enwedig o ran darparu'r llais cynrychioliadol mwyaf i Fwslimiaid.
2. Mae'r MCB wedi bod yn aneffeithiol o ran cynrychioli pawb a chymryd safiad ar rai materion sydd wedi dieithrio rhai yn cynnwys y llywodraeth.
3. Mae'r MCB wedi bod yn fwy effeithiol wrth ddelio â rhai materion nag eraill.

## **Thema 4: Arferion crefyddol sy**’n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)

Mae Islam Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## **Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried a yw Islam yn grefydd unedig neu’n grefydd ranedig**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Mwslimiaid yn dilyn y Qur'an a sunna ac mae pob un ohonyn nhw’n credu yn yr Un Duw, felly gellir eu hadnabod yn glir fel cymuned grefyddol unedig.
2. Mae Mwslimiaid Shia a Sunni yn anghytuno ynghylch cyfreithlondeb pwy ddylai eu harwain sy'n dyddio'n ôl i adeg Califf Ali. Hyd yn oed heddiw, maen nhw wedi'u rhannu gan fosgiau sy'n dilyn arweinyddiaeth wahanol.
3. Mae rhai ysgolheigion Shia, fel Vali Nasr, yn ystyried bod y rhaniadau yn arwyddocaol, yn yr un modd â Christnogaeth brotestanaidd a phabyddol. Mae eraill, fel Seyyed Hossein Nas, yn anghytuno ac nid ydyn nhw’n ystyried bod y gwahaniaethau'n arwyddocaol.
4. Yn y byd modern, mae rhaniadau newydd rhwng Islam Sunni traddodiadol a'r mudiad Salafi tra geidwadol.
5. Mae rhai yn ystyried bod a wnelo gwahaniaethau sy'n ymddangos â hunaniaeth a pherthyn, ond nad ydyn nhw’n bwysig o ran hanfod ffydd a chredoau allweddol. Fel tystiolaeth o hyn, mae Mwslimiaid o gefndiroedd gwahanol iawn yn gallu uno ar gyfer Hajj.
6. Mae eraill yn ystyried bod amrywiaeth Islam yn beth da ac y dylid cydnabod bod rhaniadau yn naturiol ar gyfer crefydd gyda chynifer o ddilynwyr ledled y byd. Creodd Allah bobl mewn gwledydd gwahanol felly dylent dderbyn hyn a dysgu oddi wrth ei gilydd.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth sy'n uno unrhyw grefydd a beth sy'n creu rhaniad?
2. Beth yw’r gwahaniaethau rhwng amrywiaeth a rhaniad?
3. A yw'n bwysig bod yn unedig o ran credoau neu arferion?
4. Pa effaith y gallai cred yn Allah fel rheolwr y byd a thynged dynol ei chael ar agweddau tuag at dynged?
5. A oes ots bod gwahaniaethau rhwng Mwslimiaid?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Islam yn unedig mewn perthynas â chredoau cyffredin ac mae Mwslimiaid yn ffurfio un ummah neu gymuned Islamaidd.
2. Mae amrywiaeth o gredoau ac arferion Islamaidd a heddiw, mae llawer o'r rhain yn destun trafod brwd rhwng ysgolion o feddwl gwahanol ac mewn llefydd gwahanol, sy'n golygu nad yw'r grefydd yn unedig.
3. Mae Islam yn unedig mewn perthynas â rhai materion allweddol fel credu mewn Un Duw ond yn rhanedig mewn perthynas ag eraill fel arweinyddiaeth.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)

Mae Islam Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae Shi'a yn fath unigryw ar Islam

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Mwslimiaid Shia yn enwog am eu harferion ar adeg Ashura yn Muharram, lle maen nhw'n coffáu galar a dioddefaint Hassan a Hussein a lofruddiwyd gan eu gwrthwynebwyr Sunni. Mae hyn yn cael ei nodi mewn dramâu dioddefaint a hunan-fflangellu, rhywbeth na cheir mewn Islam Sunni.
2. Mae Mwslimiaid Shia hefyd yn unigryw am eu bod yn dilyn 10 egwyddor arweiniol yn hytrach na phum piler Islam Sunni.
3. Fodd bynnag, mae hanfod y pileri hyn yn debyg iawn, felly mae modd dweud nad yw Mwslimiaid Shia yn unigryw a'u bod yn cytuno â phrif gredoau Islam, sef Tawhid, Risalah ac Akirah, sy'n golygu mai dim ond mân wahaniaethau a geir.
4. Mae arweinyddiaeth Mwslimiaid Shia drwy Imams y gellir ei holrhain i linach y Proffwyd gyda'r grym i ddehongli'r Qur'an heb wall yn wahanol i arweinyddiaeth Mwslimiaid Sunni.
5. Fodd bynnag, mewn rhai ffyrdd, nid yw hyn yn unigryw am fod rhai agweddau yn debyg i Shaykhs Sufi y mae eu dilynwyr hefyd yn ystyried y dylid dilyn eu datganiadau heb gwestiynu ac sy'n cadw cofnodion o awdurdod y gellir eu holrhain i'r Proffwyd.
6. Mae rhai Mwslimiaid yn ystyried bod arferion Shia yn debyg ac maen nhw'n hapus i rannu defodau gyda nhw yn yr un mosgiau. Mae eraill yn gwrthod hyn ac yn osgoi gweddïo mewn addoldai Shia.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw'r ffyrdd gwahanol y gallech chi ddiffinio a mynegi natur unigryw?
2. Ym mha ffyrdd y mae'r gwahaniaeth o ran awdurdod ac arweinyddiaeth yn effeithio ar arferion Shia a Sunni heddiw?
3. Pam mae Mwslimiaid Shia yn dilyn arferion gwahanol ar adegau penodol o'r flwyddyn?
4. Ym mha ffyrdd y mae Islam Shia yn debyg i Sufi ac yn debyg i Islam Sunni?
5. Beth yw arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng Mwslimiaid Shia a Sunni heddiw i gymunedau o Fwslimiaid ledled y byd?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Shia yn unigryw oherwydd eu credoau a'u harferion gwahanol, sy'n golygu eu bod yn wahanol i Fwslimiaid Sunni.
2. Nid yw Islam Shia yn unigryw am ei fod yn rhannu'r rhan fwyaf o agweddau â sectau mewn Islam a dim ond mân wahaniaethau a geir.
3. Mae rhai agweddau cyffredin, ond mae Mwslimiaid Shia hefyd yn dilyn rhai arferion unigryw, fel rhai sy'n gysylltiedig ag Ashura.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy’n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)

Mae Islam Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried y posibilrwydd o undeb cyfriniol personol â Duw mewn Islam

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Nod llawer o Sufis yw esgyn drwy'r cyflyrau ysbrydol gan ddefnyddio arferion coffáu (dhikr/sikr) er mwyn cyrraedd undod â Duw y maen nhw’n ei ddisgrifio fel profiad hynod emosynol sy'n real iddyn nhw.
2. Mae barddoniaeth Rumi a gwŷr doeth eraill yn disgrifio sut gall profiadau cyfriniol helpu credinwyr i nesáu at Dduw a gwireddu eu ffydd. Mae'r undod cyfriniol hwn yn ymddangos yn real iawn ac yn foddhaus o'u disgrifiadau.
3. Ar y llaw arall, condemniwyd y Mwslim Al-Hallaj am fod yn heretic am honni bod ei undod â Duw mor agos fel iddo ddweud: 'Fi yw Duw.' Cafodd y posibilrwydd hwn ei ddiystyru gan Fwslimiaid uniongred ei gyfnod.
4. Gallech chi ystyried undod â Duw fel holl-dduwiaeth gan groesi ffiniau'r undduwiaeth lem a addysgir gan Islam.
5. Ystyrir bod undod â Duw yn ffordd o buro'r galon o feddyliau hunanol a chysylltu â'r creawdwr. Felly, gall y cysylltiad personol hwn helpu i ddatblygu cymeriad da a chaiff ei gynghori ar gyfer Mwslimiaid.
6. Fodd bynnag, gallai undod cyfriniol dynnu oddi wrth barchedig ofn o Allah, y mae'r rhan fwyaf o Fwslimiaid yn ystyried ei fod yn angenrheidiol gan mai Allah yw'r barnwr eithaf sy'n penderfynu pwy sy'n mynd i nefoedd ac uffern.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A ddylid deall Duw mewn modd cyfriniol neu resymegol?
2. Beth yw 'undod cyfriniol'?
3. Os nad oes dim y gellir ei gymharu ag Allah, yna a yw 'undod' yn bosibl?
4. A yw undduwiaeth a holl-dduwiaeth yn anghydnaws?
5. O ystyried y 99 o enwau Allah, a yw'r rhinweddau hyn yn golygu bod undod cyfriniol yn bosibl?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Mwslimiaid Sufi yn hyrwyddo undod cyfriniol personol â Duw fel profiad uwch a gweithgaredd defosiynol, felly mae'n bendant yn bosibl.
2. Mae rhai Mwslimiaid fel Salafis yn gwrthod yr ymagwedd hon fel arloesedd, Bid'ah, y dylid ei eithrio o weithgarwch defosiynol Mwslimaidd.
3. Gellid cyflawni undod cyfriniol personol gan rai Sufis yn mynd i gyflwr fanna uwch ond mae'n bosibl na fydd y mwyafrif yn ei gyrraedd nac yn dewis y llwybr hwn.

**Thema 4: Arferion crefyddol sy**’n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)

Mae Islam Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

**Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried dilysrwydd crefyddol arferion defosiynol Sufi.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Arferai Muhammad fynd allan i'r ogofâu i fyfyrio ac mae Sufis yn ystyried bod eu harferion defosiynol o goffáu Alla yn dilyn ei esiampl yn naturiol, felly maen nhw’n ddilys.
2. Fodd bynnag, dywedodd y Proffwyd hefyd na ddylai Mwslimiaid dorri tir newydd mewn perthynas â chrefydd ac mae rhai yn ystyried bod arferion Sufi yn annilys am na chânt eu nodi'n benodol yn y sunna neu Gonglfeini Islam, felly y gallent fod yn enghreifftiau o arloesi.
3. Mae awdurdodau Mwslimaidd Sunni prif ffrwd fel Prifysgol Al-Azhar wedi cefnogi arferion defosiynol Sufi fel rhai dilys sy'n cael eu cwmpasu o fewn traddodiadau Islam. Fodd bynnag, mae ysgolheigion Salafi fel Tabari wedi gwrthbrofi arferion Sufi ac wedi cynghori y dylid eu gwahardd.
4. Mae rhai o'r farn bod arferion Sufi yn debyg i'r myfyrdodau a gyflawnir gan fynachod Bwdhaidd a Christnogol. Gellid ystyried bod hyn yn cyd-fynd ag ysbrydolrwydd gwirioneddol neu gellid beirniadu ei fod yn an-Islamaidd.
5. Mae rhai arferion Sufi penodol fel ymweld â beddrodau Seintiau a thyngu llwon i Shaykhs yn cael eu beirniadu am mai dim ond pobl gyffredin ydyn nhw, ym marn eraill, ac na ddylid eu dyrchafu o ran statws na'u haddoli.
6. Mae eraill yn ystyried bod Shayks ac ymweliadau â beddrodau yn fodd i gyflawni datblygiad ysbrydol ac maen nhw’n dweud eu bod ond yn dysgu o'r enghreifftiau a adawyd gan bobl sy'n eu hysbrydoli i ddilyn Islam.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pam bod rhai Mwslimiaid yn dewis llwybr Sufi?
2. Pam mae rhai yn ystyried bod arferion defosiynol Sufi yn bid'ah (arloesi)?
3. Pam bod ots os yw Mwslimiaid yn cyflwyno arferion newydd yn eu defosiynau crefyddol?
4. Pam mae rhai pobl yn teimlo'r angen i ddilyn arweiniad ysbrydol?
5. Beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng Islam Sunni, Shia a Sufi?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae arferion Sufi yn ddilys: maen nhw’n dod â chredinwyr yn nes at Dduw ac yn arwain at allu gwireddu ffydd yn well.
2. Mae arferion Sufi yn annilys, am eu bod yn enghreifftiau o arloesi sy'n arwain oddi wrth y grefydd fel y datguddiwyd i’r Proffwyd.
3. Mae rhai arferion Sufi yn ddilys ac eraill yn annilys.

**Thema 4: Arferion crefyddol sy'**n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)

Mae Islam Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

**Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried effeithiolrwydd dysgeidiaeth foesegol Iddewig fel canllawiau ar gyfer bywyd i Iddewon heddiw.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae dysgeidiaethau moesegol Islamaidd yn seiliedig ar sunna y Proffwyd. Ef oedd y Proffwyd olaf a pherffaith yr ystyrir bod ei enghreifftiau yn berthnasol i bob oes ac na ddylid eu newid. Felly, mae dysgeidiaethau moesegol Islamaidd yn gymaint o ganllaw ar gyfer heddiw ag erioed.
2. Fodd bynnag, cafodd dysgeidiaethau moesegol Islamaidd eu ffurfio mewn oes wahanol, oedd yn un llwythol yn bennaf. Mae dysgeidiaethau sy'n beirniadu cyfunrywioldeb a safle'r fenyw yn cael eu hystyried yn annerbyniol fel arfer heddiw, ac felly ni ddylid eu defnyddio fel canllaw.
3. Mae rhai yn dadlau bod dysgeidiaethau moesegol Islamaidd yn gwella amodau i bobl, yn cynnwys menywod, sy'n berthynol i'r norm ar yr adeg y cawson nhw eu cyflwyno ym Madinah Muhammad. Felly, heddiw, gall dysgeidiaethau Islamaidd ddal i fod yn effeithiol os cânt eu diwygio er mwyn eu gwella ymhellach.
4. Mae eraill yn dadlau na ellir moderneiddio dysgeidiaethau moesegol Islamaidd ac y dylid eu defnyddio fel cod clir i gadw Mwslimiaid ar y llwybr cul yn yr un modd ag y cawson nhw eu dehongli gan gymunedau cynnar o Fwslimiaid.
5. Mewn cymdeithas seciwlar, mae rhai yn dadlau y dylai pawb fyw yn ôl yr un dysgeidiaethau moesegol ac nad oes lle i godau moesegol cyfochrog ar gyfer pobl o grefyddau gwahanol.
6. Mae eraill yn dadlau y gall dysgeidiaethau moesegol Mwslimaidd fynd law yn llaw â bywyd mewn gwladwriaethau modern, seciwlar gan helpu i annog Mwslimiaid i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas gyda chefnogaeth foesegol.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A ddylid ystyried dysgeidiaethau moesegol yn absoliwt neu'n berthynol i'r hyn a ystyrir yn dderbyniol o ystyried cyfnodau ac amgylchiadau gwahanol.
2. Beth yw tarddiad dysgeidiaethau moesegol Islamaidd?
3. I ba raddau y dylai crefyddau ddatgan dysgeidiaethau moesegol ac i ba raddau y mae'r rhain yn faterion o gydwybod yr unigolyn?
4. A ddylai crefyddau gwahanol gael canllawiau moesegol gwahanol mewn cymunedau a gwledydd cymysg, seciwlar?
5. Pam mae rhai Mwslimiaid am ddiwygio dysgeidiaethau moesegol Islamaidd ar gyfer heddiw?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae dysgeidiaethau moesegol Islamaidd yn effeithiol heddiw ac am dragwyddoldeb am eu bod yn seiliedig ar y datguddiad terfynol i ddynol ryw.
2. Mae dysgeidiaethau moesegol Islamaidd yn tarddu o Arabia yn y chweched ganrif ac nid ydyn nhw'n briodol mwyach mewn cymdeithasau modern, cymysg.
3. Mae rhai agweddau ar ddysgeidiaethau moesegol Islamaidd, fel hyrwyddo hawliau dynol yn gyffredinol, yn effeithiol, ond nid yw hynny'n wir am agweddau eraill fel cymhwyso cosbau yn llythrennol.

**Thema 4: Arferion crefyddol sy**’n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)

Mae Islam Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnyn nhw wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y gellir cymhwyso dysgeidiaethau Islamaidd am gosb heddiw.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae cosbau Islamaidd yn cael eu cysylltu â chosbau corfforol a'r gosb eithaf fel arfer. Yn yr hen fyd, byddai dwylo'n cael eu torri ymaith am ddwyn ac mae cosbau o'r fath yn cael eu cyflawni o hyd mewn rhai gwledydd Islamaidd. Heddiw, ystyrir bod hyn yn mynd yn groes i hawliau dynol y cytunwyd arnyn nhw yn rhyngwladol felly na ddylid eu cymhwyso mwyach.
2. Fodd bynnag, mae rhai Mwslimiaid o'r farn bod y cosbau hyn yn dilyn sunna Muhammad felly eu bod yn ddilys o hyd. Maen nhw’n credu bod cosbau llym yn helpu i atal troseddau fel delio mewn cyffuriau.
3. Roedd llawer o gosbau Islamaidd yn symbolaidd ac nid oeddent yn cael eu cyflawni'n llythrennol. Roedd dysgeidiaethau Islamaidd am gosb yn cynnwys y posibilrwydd o faddeuant, cymodi, digolledu a thosturi. Mae'r rhain yr un mor berthnasol heddiw ag erioed.
4. Ar y llaw arall, gellid ystyried bod cosbau ar gyfer y diben ymarferol o sicrhau trefn a daioni i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, felly dylid ond cymhwyso cosbau Islamaidd lle cânt effaith iwtalitaraidd ymarferol.
5. Mae rhai Mwslimiaid yn dweud y dylid cyflawni'r gosb eithaf er mwyn atal troseddwyr eraill ac am ei fod yn cael ei ganiatáu a'i annog hyd yn oed yn y Qur'an a'r sunna. Mae eraill yn dweud bod y gosb eithaf a chosbau shari'a eraill yn dibynnu ar gynifer o ffactorau fel na ellir eu cymhwyso'n ymarferol o gwbl.
6. Gellid dadlau yn y byd heddiw, mai awdurdodau seciwlar yw'r unig rai dilys i gyflawni cosbau a ddylai fod yn gyfartal i bawb ni waeth beth yw eu ffydd.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Beth yw diben cosb?
2. A ddylai crefyddau fod yn rhan o systemau o gosb?
3. Ym mha ffyrdd y gellid camddeall cosbau Islamaidd?
4. A ddylai cosbau fod yn berthynol i amser, lle ac amgylchiadau?
5. Beth yw goblygiadau'r mater hwn i Fwslimiaid sy'n byw mewn rhannau gwahanol o'r byd heddiw?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Dylid cymhwyso dysgeidiaethau Islamaidd ar gosb heddiw am eu bod yn fodel i bob oes, yn seiliedig ar awdurdod dwyfol.
2. Ni ddylid cymhwyso cosbau Islamaidd heddiw am eu bod yn anghyson â hawliau dynol.
3. Mae'n bosibl bod dysgeidiaethau Islamaidd ar gosb ym fwy amrywiol a thosturiol na'r hyn a gredwyd yn gyffredin. Gall rhai agweddau fod yn berthnasol o hyd heddiw.